

<b>FFURFLEN ASESU RISGIAU IECHYD DIOGELWCH</b>			
<b>Asesiad o Risgiau ynghylch Coronafeirws Newydd (Covid-19)</b>		<b>Gwnaed yr asesiad gan:</b>	<b>Tîm Parhad Busnes</b>
<b>Dyddiad yr Asesiad:</b>	<b>Mehefin 2021</b>	<b>Dyddiad yr Adolygiad:</b>	<b>Medi 2021 neu'n gynharach na hynny os bydd agen</b>

Defnyddiwch y ffurflen hon i asesu tasgau generig neu benodol, gweithgareddau gwaith neu offer. Dylai'r sawl sy'n gwneud yr asesiad fod yn gymwys i wneud hynny.

<b>PERYGLON</b>	<b>PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT</b>	<b>BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?</b>	<b>PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL</b>	<b>GAN BWY</b>	<b>ERBYN PRYD</b>	<b>CWBLHAWYD (DYDDIAD)</b>
Trosglwyddo'r firws i weithwyr a phobl eraill a throsglwyddo'r firws rhyngddynt – Swyddfeydd Porth.	<p>Staff.</p> <p>Ymwelwyr sy'n dod i'r swyddfa'r GCA.</p> <p>Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith.</p> <p>Cynnydd posibl yn y risg o drosglwyddo'r firws rhwng pobl.</p>	<p>Rhoddwyd cyngor ac arweiniad i staff pan wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi gwybodaeth.</p> <p>Anfonwyd gohebiaeth allanol at randdeiliaid i'w diweddarau ynghylch y sefyllfa, e.e. canslo digwyddiadau DP.</p> <p>Cyflwynwyd trefniadau gweithio gartref ar gyfer yr holl staff o 18 Mawrth 2020, yn cynnwys cynghori staff i gynnal ymweliadau/cyfarfodydd</p>	<p>Trafodaeth reolaidd â staff ynghylch mynychu'r swyddfa, canllawiau cysylltiedig, a chwestiynau neu bryderon cysylltiedig.</p> <p>Monitro'r sefyllfa mewn perthynas ag ymwelwyr sy'n dod i swyddfeydd Porth Tredomen a rhoi cyngor priodol pa ystyrir y bydd hynny'n addas.</p> <p>Monitro sefyllfaoedd cyfyngiadau symud lle os byddant yn cael eu</p>	<p>Rheolwyr Llinell</p> <p>Yr Uwch Dîm Rheoli / Tîm Parhad Busnes</p> <p>Yr Uwch Dîm Rheoli / Tîm Parhad Busnes</p>	<p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p> <p>Parhaus</p>	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>yn rhithwir os bwriedir bwrw ymlaen â hwy.</p> <p>Drafftiwyd cynlluniau ynghylch dychwelyd i'r swyddfa yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a hysbyswyd staff am hynny ar 03 Medi 2020. Anfonwyd dogfennau canllawiau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Dylai staff y swyddfa barhau i weithio gartref a dylai staff archebu argaeledd desgiau cyfyngedig yn y swyddfeydd os byddant yn dymuno gwneud hynny (5 yn y brif swyddfa, 5 ym manau'r desgiau poeth, a 3 ym manau'r UDRh). Crëwyd system archebu a hysbysebwyd staff am hynny ar 03 Medi 2020 ac anfonwyd gohebiaeth ddilynol yng ngoleuni gwybodaeth berthnasol y llywodraeth.</p>	<p>sefydlu, a hysbysu staff yn unol â hynny.</p>			

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>Dylid cynnal pellter cymdeithasol bob amser trwy gynnal pellter o 2 fetr oddi wrth bobl eraill.</p> <p>Arwyddion a marciau llawr priodol yn eu lle a system un ffordd ar gyfer symud o amgylch y swyddfa ac arwyddion cynnal pellter cymdeithasol yn eu lle.</p> <p>Bydd manau na ddylai staff eu defnyddio yn cael eu cau a darperir arwyddion clir.</p> <p>Dim ond un unigolyn ar y tro a gaiff fod ym manau defnyddio llungopiwyer er mwyn sicrhau y cynhelir mesurau cadw pellter cymdeithasol.</p> <p>Mae desgiau y gellir eu defnyddio wedi’u marcio’n eglur er mwyn cynnal pellter cymdeithasol a gofynnwyd i staff lanhau</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>desgiau ac offer cyn ac ar ôl eu defnyddio.</p> <p>Mae nwyddau glanhau ar gael, a gofynnwyd i staff lanhau mannau a gyffyrddir yn cynnwys llungopiwr, desgiau, cyfarpar sgrin arddangos, bysellfyreddau (nid yw hon yn rhestr derfynol). Gofynnwyd i staff ddod â’r gliniaduron, y bysellfyreddau a’r llygod a neilltuwyd iddynt i’r swyddfa.</p> <p>Darparwyd canllawiau ynghylch gorchuddion wyneb i staff sy’n dewis gwisgo gorchuddion o’r fath pan fyddant yn y swyddfa.</p> <p>Dylai’r holl staff gwblhau ‘Adnodd Asesu Risg Covid i’r Gweithlu Cymru Gyfan’ i gynnal a hysbysu trafodaethau sy’n mynd rhagddynt ynghylch lliniaru</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>a rheoli risgiau canfyddedig.</p> <p>Mae cyngor am warchod eu hunain a gwybodaeth gysylltiedig wedi cael eu cyfathrebu i staff drwy gydol y flwyddyn yn seiliedig ar gyngor y Prif Swyddog Meddygol. Mae staff oedd yn amddiffyn eu hunain yn gallu dychwelyd i weithio os asesir risgiau amgylcheddau i sicrhau eu bod yn 'ddiogel rhag COVID' (h.y. mae mesurau rhesymol wedi cael eu gweithredu i leihau risgiau i gyflogeion a dysgwyr), er y cynghorir i oedolion barhau i weithio gartref os gallant. Dylai staff sydd wedi bod yn amddiffyn eu hunain drafod â'u cyflogwr cyn gynted ag y bo modd ynghylch sut byddid yn eu cadw'n ddiogel. Dylai staff sy'n dychwelyd i'r gweithle gadw'n gaeth at y</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>mesurau pellter cymdeithasol yn ogystal â'r mesurau diogelwch eraill sydd wedi'u sefydlu yn y gweithle.</p> <p>Fel rhan o drafodaethau rheolaidd, adolygu ac ystyried gweithwyr y gallai eu nodweddion gwarchoddedig olygu y byddant yn dod i gysylltiad â lefel fwy difrifol o risg, ac archwilio a thrafod addasiadau rhesymol a sicrhau nad yw'r camau sydd wedi'u cymryd gan y sefydliad yn arwain at effaith negyddol anghyfiawnadwy ar rai grwpiau.</p> <p>Ni chaiff unrhyw ymwelwyr fynd i swyddfeydd y GCA.</p> <p>Darparwyd canllawiau i staff ynghylch prosesau hunan-ynysu a'r gofynion i gyfranogi yn y strategaeth profi, olrhain ac amddiffyn</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>os bydd symptomau yn datblygu. Dylid cadw cofnod o ymweliadau â'r swyddfa yn y llyfrau log sydd ar gael.</p> <p>Anogir staff i ddefnyddio mathau eraill o gludiant yn hytrach na chlodiant cyhoeddus. Ni chaniateir rhannu ceir. Dylai'r sawl sy'n byw o fewn 5km o'r adeilad ystyried cerdded neu feicio i'r gweithle (mae rheseli cadw beiciau ar gael). Mae gorchuddion wyneb yn orfodol ar gludiant cyhoeddus o 27 Gorffennaf 2020.</p> <p>Mae dogfennau cyfarwyddyd byw i staff ar gael ar SharePoint a hysbysir staff pan gânt eu diweddarau ynghylch ymateb y GCA i Covid-19.</p>				
Trosglwyddo'r firws i weithwyr a phobl eraill a throsglwyddo'r	Staff. Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad	Lluniwyd cynlluniau i gynorthwyo i ailagor ysgolion yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth	Trafodaeth reolaidd â staff ynghylch gofynion ymweliadau allanol a phrotocolau gofynnol y	Rheolwyr Llinell	Parhaus	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
firws rhyngddynt - ymweliadau allanol.	agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith. Cynnydd posibl yn y risg o drosglwyddo'r firws rhwng pobl.	<p>a hysbyswyd y staff am hynny.</p> <p>Rhodddwyd canllawiau i staff drwy gydol y flwyddyn ynghylch ymgymryd ag ymweliadau allanol a'r prosesau y dylid eu dilyn, yn cynnwys pwysigrwydd peidio mynd i ysgol os bydd symptomau Covid-19 yn datblygu a mesurau glendid priodol.</p> <p>Dylai staff sy'n ymgymryd ag ymweliadau allanol ddod yn gyfarwydd ag aseuadau risg Awdurdodau Lleol, ysgolion/lleoliadau a sefydliadau allanol eraill i ddeall y protocolau y mae'n ofynnol i staff sy'n cynnal ymweliadau allanol eu dilyn.</p> <p>Mae'n ofynnol i staff gadw at brotocolau a chanllawiau sefydliadau yn ystod ymweliadau allanol,</p>	<p>dylid cadw atynt wrth gynnal ymweliadau allanol.</p> <p>Monitro sefyllfaoedd cyfyngiadau symud lle os byddant yn cael eu sefydlu, a hysbysu staff yn unol â hynny.</p>	Yr Uwch Dîm Rheoli / Tîm Parhad Busnes	Parhaus	



PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>ac ar yr un pryd, dylent roi sylw priodol i ganllawiau'r GCA a'u diogelwch personol eu hunain, e.e. cynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr, glendid dwylo, ayyb.</p> <p>Dylai'r holl staff gwblhau 'Adnodd Asesu Risg Covid i'r Gweithlu Cymru Gyfan' i gynnal a hysbysu trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ynghylch lliniaru a rheoli risgiau canfyddedig.</p> <p>Mae cyngor am warchod eu hunain a gwybodaeth gysylltiedig wedi cael eu cyfathrebu i staff drwy gydol y flwyddyn yn seiliedig ar gyngor y Prif Swyddog Meddygol. Mae staff oedd yn amddiffyn eu hunain yn gallu dychwelyd i weithio os asesir risgiau amgylcheddau i sicrhau eu bod yn 'ddiogel rhag COVID' (h.y. mae</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>mesurau rhesymol wedi cael eu gweithredu i leihau risgiau i gyflogeion a dysgwyr), er y cynghorir i oedolion barhau i weithio gartref os gallant. Dylai staff sydd wedi bod yn amddiffyn eu hunain drafod â’u cyflogwr cyn gynted ag y bo modd ynghylch sut byddid yn eu cadw’n ddiogel. Dylai staff sy’n dychwelyd i’r gweithle gadw’n gaeth at y mesurau pellter cymdeithasol yn ogystal â’r mesurau diogelwch eraill sydd wedi’u sefydlu yn y gweithle.</p> <p>Fel rhan o drafodaethau rheolaidd, adolygu ac ystyried gweithwyr y gallai eu nodweddion gwarchodedig olygu y byddant yn dod i gysylltiad â lefel fwy difrifol o risg, ac archwilio a thrafod addasiadau rhesymol a sicrhau nad yw’r camau</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>sydd wedi’u cymryd gan y sefydliad yn arwain at effaith negyddol anghyfiawnadwy ar rai grwpiau.</p> <p>Darparwyd canllawiau i staff ynghylch prosesau hunan-ynysu a’r gofynion i gyfranogi yn y strategaeth profi, olrhain ac amddiffyn os bydd symptomau yn datblygu. Dylai ymweliadau allanol a gynhelir gael eu cofnodi’n ganolog yn y GCA a dylid cadw at unrhyw brotocolau gofynnol wrth gynnal ymweliadau allanol, e.e. llofnodi llyfrau ymwelwyr.</p> <p>Anogir staff i ddefnyddio mathau eraill o gludiant yn hytrach na chludiant cyhoeddus. Ni chaniateir rhannu ceir. Dylai’r rhai sy’n byw o fewn 5km i’r sefydliad sy’n destun ymweliad ystyried cerdded yno. Roedd gorchuddion</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>wyneb yn orfodol ar gludiant cyhoeddus o 27 Gorffennaf 2020.</p> <p>Darparwyd canllawiau ynghylch gorchuddion wyneb i staff sy'n dymuno eu gwisgo neu'n gorfodo eu gwisg oherwydd y protocolau gofynnol yn y sefydliad sy'n destun yr ymweliad.</p>				
<p>Arferion glendid gwael yn y gweithle.</p>	<p>Staff.</p> <p>Pobl sy'n ymweld â Swyddfa'r GCA.</p> <p>Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith.</p> <p>Cynnydd posibl yn y risg o drosglwyddo'r firws rhwng pobl.</p>	<p>Cyngor i staff ynghylch golchi dwylo'n briodol, yn cynnwys eu hannog yn rheolaidd i olchi dwylo'n amlach fel rhan o'r cynllunio i ddychwelyd i'r gweithle.</p> <p>Mae cyfleusterau golchi dwylo ynghyd â dŵr a sebon yn eu lle.</p> <p>Codwyd arwyddion i atgoffa staff i ddal y firws, ei roi yn y bin a'i ladd.</p>	<p>Mynd ati'n rheolaidd i fonitro cyngor y Llywodraeth ynghylch arferion glendid gofynnol ac unrhyw ddefnydd o gyfarpar diogelu personol a gynghorir.</p>	<p>Yr Uwch Dîm Rheoli / Tîm Parhad Busnes</p>	<p>Parhaus</p>	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>Darparwyd hylif diheintio dwylo a chlytiau diheintio ar gyfer mannau a rennir mewn swyddfeydd. Lleolir y pwyntiau diheintio ger mynedfeydd ac allanfeydd ac oddi allan i fannau a rennir, e.e. toiledau.</p> <p>Dylid cynnal pellter cymdeithasol bob amser trwy gynnal pellter o 2 fetr oddi wrth bobl eraill.</p> <p>Mae nwyddau glanhau ar gael, a gofynnwyd i staff lanhau mannau a gyffyrddir yn cynnwys llungopiwyd, desgiau, cyfarpar sgrin arddangos, bysellfyrddau (nid yw hon yn rhestr derfynol).</p> <p>Mae menig untro ar gael i staff sy’n trin a thrafod llythyrau, offer a rennir ayyb, os dymunant.</p> <p>Ni chaniateir paratoi bwyd yn y gegin a dim ond un</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>unigolyn a gaiff ddefnyddio'r gegin ar unrhyw adeg. Dylai staff ddod â'u bwyd a'u diodydd eu hunain i osgoi cyffwrdd manau yn ddiangen. Caniateir i staff ddefnyddio tapiau dŵr peth ac oer ar gyfer diodydd a thapiau sinciau.</p> <p>Gofynnir i staff beidio dod ag eitemau sydd ddim yn hanfodol i'r swyddfa, na mynd ag eitemau o'r fath yn ystod ymweliadau allanol. Dylid glanhau unrhyw eitemau cyn ac wedi'r ymweliad.</p> <p>Yn ôl cyngor y Llywodraeth ynghylch glanhau cyffredinol mewn lleoliadau nad ydynt yn lleoliadau gofal iechyd ble nad oes gan unrhyw un symptomau Covid-19 (neu ble nad oes achos o'r clefyd wedi'i gadarnhau), dylid golchi dillad golch yn</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr ac nid oes angen gwneud unrhyw olchi ychwanegol i’r hyn y byddid yn ei wneud fel arfer. Hysbyswyd staff am hyn i’w galluogi i ystyried pa eitemau y gallent eu gwisgo i fynd i’r gwaith.</p> <p>Gofynnwyd i staff gadw ffenestri ar agor bob amser yn y swyddfeydd, i sicrhau y gwnaiff awyr iach gylchredeg.</p> <p>Mae’r landlord wedi cadarnhau fod system aerdymheru’r swyddfa yn system awyr iach, a chaiff y swyddfeydd eu rheoli’n unigol. Mae canllawiau’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dynodi risg isel.</p> <p>Mae staff sy’n dewis gwisgo gorchuddion wyneb yn y swyddfa, neu yn ystod ymweliadau</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		allanol yn unol â phrotocolau gofynnol sefydliadau wedi cael eu hysbysu ynghylch sut i'w defnyddio'n ddiogel.				
Arferion glanhau aneffeithiol yn y gweithle.	<p>Staff.</p> <p>Pobl sy'n ymweld â Swyddfa'r GCA. Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith.</p> <p>Cynnydd posibl yn y risg o drosglwyddo'r firws rhwng pobl.</p>	<p>Trafod â landlordiaid ynghylch darpariaeth glanhau, e.e. glanhau'n amlach yn y manau hynny y gwneir defnydd sylweddol ohonynt, e.e. handlenni drysau ac ati. Mae'r landlord wedi cadarnhau y caiff manau a rennir eu glanhau'n amlach ac y caiff desgiau ac offer eu glanhau mewn swyddfeydd ar ddiwedd pob diwrnod gwaith. Mae'r landlord yn gyfrifol am wagio'r biniau ar ddiwedd y diwrnod gwaith.</p> <p>Ystyried cyngor y Llywodraeth ynghylch glanhau.</p> <p>Staff yn glanhau desgiau ac offer a rennir yn</p>	Dylid pennu gofynion glanhau penodol os bydd achosion a amheuir neu ar ôl cael hysbysiad am gyswllt ag achos trwy brosesau profi, olrhain ac amddiffyn.	Tîm Parhad Busnes	18 Medi 2020	



PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		amlach, cyn ac wedi eu defnyddio. Cyfyngir ar y defnydd o eitemau a rennir a diddymwyd yr angen i rannu eitemau penodol ble'r oedd hynny'n bosibl, e.e. bysellfyrdau. Rhoddwyd canllawiau i'r staff.				
Cyfnod estynedig o weithio gartref.	Staff – nid yw staff yn gyfarwydd â gweithio gartref yn rheolaidd ac yn barhaus. Efallai fod staff yn anghyfarwydd â sut i reoli staff a thimau o bell.  Efallai na fydd mannau gweithio yn ddelfrydol mewn amgylchedd cartref.  Gall gweithio gartref a'r amgylchiadau	Rhoddwyd canllawiau i staff ynghylch gweithio gartref i'w cynorthwyo i ddefnyddio ystafell i weithio gartref, yn cynnwys canllawiau ynghylch cyfarpar sgrin arddangos, ystyriaethau ynghylch diogelwch a chanllawiau ynghylch llesiant.  Caniatwyd i staff fynd ag offer o'r swyddfa adref ar ddechrau'r cyfnod gweithio gartref, e.e. monitorau, bysellfyrdau, cadeiriau.	Adolygu'r canllawiau gweithio gartref yn rheolaidd ac ymateb i bryderon a gaiff eu mynegi gan staff.	Adnoddau Dynol	Parhaus	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
	<p>presennol wneud i staff deimlo ynysig ac yn unig, a dioddef gan orbryder a straen.</p> <p>Efallai fod angen i staff ddatblygu sgiliau i’w galluogi i weithio gartref yn effeithiol.</p> <p>Aelodau eraill o’r aelwyd – effaith ar berthnasoedd teuluol.</p> <p>Mae’n ofynnol i staff sicrhau cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gwaith a’u cyfrifoldebau gofalu.</p>	<p>Cynghorwyd staff i drafod unrhyw bryderon â rheolwyr.</p> <p>Rhodddwyd canllawiau i reolwyr ynghylch cymorth priodol â staff, yn cynnwys cysylltu’n rheolaidd â hwy ynghylch eu llesiant.</p> <p>Canllawiau Rheoli Pwysau yn y Gwaith a thempledi Cynllun Gweithredu Gwell lechyd ar gyfer i staff/ rheolwyr ar gael ar SharePoint.</p> <p>Atgoffwyd rheolwyr i annog staff i gael egwyliau rheolaidd o’r gwaith, yn cynnwys cyfnodau o wyliau.</p> <p>Adran TG ar gael i gynnig cymorth o bell i staff ynghylch anawsterau technegol a gosod offer.</p> <p>Cydnabyddiaeth fod aelodau staff yn ceisio</p>				

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio gartref ac amgylchiadau teuluol – cynghorwyd rheolwyr i fod yn gefnogol. Sylw i lesiant aelodau o staff.</p> <p>Mynediad at Raglen Cynorthwyo Cyflogeion.</p> <p>Ystyriwyd effaith teimlo’n ynysig yn sgil gweithio gartref fel rhan o gynlluniau dychwelyd i weithio, a chynorthwywyd â hynny trwy gyflwyno system neilltuo desgiau os bydd staff yn dymuno mynd i’r swyddfa.</p>				
Gallai llesiant gael ei effeithio.	Staff – pryder ynghylch y sefyllfa, cynnydd mewn arwahanrwydd yn effeithio ar iechyd a llesiant.	<p>Cyfathrebu’n rheolaidd â staff cyn ac yn ystod y cyfnod o weithio gartref, yn cynnwys rhannu gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cyfarfodydd gyda’r Grŵp Ffocws Llesiant.</p>	Datblygu meysydd llesiant yn rheolaidd wrth i wybodaeth newydd gael ei rhyddhau.	Adnoddau Dynol	Parhaus	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>Dosbarthu rhestr chwarae llesiant sy’n cyfeirio at amrywiaeth o ganllawiau a chymorth sydd ar gael i staff.</p> <p>Cynnal a datblygu’r hwb Ymgysylltu a Chysylltu ar Microsoft Teams.</p> <p>Mynediad at Raglen Cynorthwyo Cyflogeion.</p> <p>Dylid ystyried llesiant staff fel rhan o gynlluniau dychwelyd i’r swyddfa, e.e. dylai’r gallu i neilltuo desg yn y swyddfa gael ei weithredu fel rhan o hyn. Anogir trafodaethau rheolaidd â rheolwyr llinell i ymdrin ag unrhyw bryderon sydd gan staff ynghylch dychwelyd i’r gweithle.</p>				
Effaith negyddol ar berthnasoedd â rhanddeiliaid.	Perthnasoedd rhwng staff a rhanddeiliaid pe ystyrid bod y	Cyfathrebu’n rheolaidd â rhanddeiliaid wrth i’r sefyllfa ddatblygu, yn cynnwys eu hysbysu am	Adolygu ac ystyried dulliau newydd o weithio gyda rhanddeiliaid a myfyri ynghylch gwelliannau i	Yr Uwch Dîm Rheoli/ Uwch Dîm Arwain	Parhaus	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
	sefyllfa wedi'i thrafod yn wael.	<p>ddulliau o gysylltu â staff i gael cymorth.</p> <p>Mae timau'r GCA wedi ymateb i'r sefyllfa a sefydlu dulliau newydd o gydweithio â rhanddeiliaid yn ôl y galw, e.e. strategaeth dysgu o bell.</p> <p>Canslo digwyddiadau hyfforddiant wyneb yn wyneb a'r cyfathrebu oedd y gysylltiedig â hyn.</p> <p>Llinellau ffôn y swyddfa yn cael eu dargyfeirio i rifau ffôn staff sy'n gweithio o bell.</p>	osgoi dychwelyd yn ddisymwth i'r hen ddulliau o weithio.			
Mynediad i'r swyddfeydd yn ystod y cyfnod pan fyddant ar gau oherwydd rhesymau brys.	<p>Staff</p> <p>Pobl sy'n ymweld â Swyddfa'r GCA.</p> <p>Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith.</p>	<p>Dim ond aelodau staff dynodedig y GCA a all fynd i'r swyddfa oherwydd rhesymau brys (dim ymwelwyr).</p> <p>Cynghorir staff penodedig y dylent gynnal rheolau cadw pellter cymdeithasol wrth fynd i'r swyddfa a chadw at gyngor ynghylch</p>	Wrth i'r swyddfeydd ailagor, bydd y canllawiau yn ehangu neu'n disodli protocolau a sefydlwyd yn flaenorol yn y maes hwn.	Uwch Dîm Rheoli/Tîm Parhad Busnes		

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY'N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		iechyd a diogelwch wrth fynd i mewn ac allan o'r adeilad.				
Cyfathrebu aneffeithiol â gweithwyr a rhanddeiliaid ynghylch yr ymateb sy'n digwydd i Covid-19.	<p>Staff.</p> <p>Ymwelwyr sy'n dod i'r swyddfa'r GCA.</p> <p>Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad agos ag aelodau o staff mewn perthynas â'n gwaith.</p> <p>Staff sy'n gweithio mewn ysgolion/ disgyblion – mwy o gyswllt â staff/ disgyblion yn yr ysgol a'r potensial i ledaenu'r firws.</p>	<p>Rhodddwyd cyngor ac arweiniad i staff pan wnaeth y Llywodraeth gyhoeddi gwybodaeth.</p> <p>Rhodddwyd cyngor ac arweiniad rheolaidd i staff yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud yn dilyn gweithredu'r gofyniad i weithio gartref.</p> <p>Mae asesiad risgiau Covid-19 ar gael ar wefan y GCA.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod ar gyfer yr holl staff yn fisol drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr undebau llafur ar 21 Gorffennaf 2020.</p>	Datblygu a gwella meysydd cyfathrebu yn rheolaidd i gynorthwyo ag ymateb y GCA i argyfwng Covid-19.	Uwch Dîm Rheoli/Tîm Parhad Busnes	Parhaus	

PERYGLON	PWY A ALLAI GAEL EI NIWEIDIO A SUT	BETH YDYCH CHI EISOES YN EI WNEUD?	PA GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL	GAN BWY	ERBYN PRYD	CWBLHAWYD (DYDDIAD)
		<p>Cyhoeddwyd dogfennau canllawiau drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Crëwyd fideo a rhannwyd y fideo â staff i ddwyn sylw at y mesurau sydd wedi cael eu sefydlu yn y swyddfeydd i helpu i staff i ddeall y broses o ddychwelyd i swyddfa Porth Tredomen.</p> <p>Gofynnwyd i reolwyr llinell gael trafodaeth â staff ar ôl iddynt gwblhau ‘Adnodd Asesu Risg Covid i’r Gweithlu Cymru Gyfan’ i drafod cynlluniau dychwelyd ac unrhyw bryderon/ cwestiynau a godir gan aelodau o’r staff.</p>				